

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Prif Weithredwyr y GIG
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

28 Mehefin 2019

Annwyl Gyfeillion

Paratodau ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ysgrifennais atoch ar 15 Ebrill 2019 er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cytundeb i ymestyn cyfnod Erthygl 50 ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE. Y sefyllfa gyfreithiol fel ag y mae yng nghyfraith y DU a'r UE ar hyn o bryd yw y bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref 2019. Rwy'n ysgrifennu atoch nawr i roi rhagor o wybodaeth.

Asesiad cyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yr un mor debygol o ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref ag yr oeddem ym mis Mawrth a mis Ebrill, ac nad yw effaith ddisgwyliedig ymadael heb gytundeb wedi lleihau. Y peryglon mwyaf sylweddol o hyd yw parhad y cyflenwad o feddyginiaeth, dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol, a nwyddau anghlinigol, gan gynnwys i'r sector gofal.

Mae Llywodraeth y DU bellach yn disgwyl gwell sefyllfa o ran cyflenwadau yn sgil y paratodau corfforol sy'n digwydd ar ochr yr UE o'r ffin, ond bydd ffactorau eraill fel y tywydd dros y gaeaf yn golygu nad oes gostyngiad i'r risg yn gyffredinol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ailgydio yn yr holl drefniadau, i bob pwrpas, a wnaed ar gyfer peryglon ymadael heb gytundeb yn gynharach eleni. Mae llwybrau amgen wedi'u gosod ar gyfer llongau (a threnau), cwmnïau fferyllol yn cael eu gwahodd i gasglu mwy o gyflenwad wrth gefn na'r hyn sy'n arferol, ac mae'r ymgais yn parhau i ddod o hyd i ragor o storfeydd yn y DU.

At y diben hwn, mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at gyflenwyr meddyginiaethau i ofyn iddynt osod cynlluniau yn eu lle i sicrhau digon o gyflenwadau ar gyfer cyfnod o chwe mis lle disgwylir y bydd amharu posib, gan gynnwys cyflenwad chwe wythnos arall yn y DU ar ben y cyflenwad gweithredol wrth gefn ynghyd â chynlluniau gan gyflenwyr i ddargyfeirio cadwyni cyflenwi oddi wrth y croesfannau byrraf rhwng Prydain a thir mawr Ewrop.

Ar gyfer cynnyrch sy'n para am gyfnod byr, neu pan fo'r cyfyngiadau ar gynhyrchu yn golygu nad yw'n bosibl cadw cyflenwadau ychwanegol wrth gefn (er enghraifft radioisotopau meddygol) mae Llywodraeth y DU yn gofyn am drefniadau amgen i gludo drwy'r awyr. O ran dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol, mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at gyflenwyr i'w hysbysu y bydd y cyflenwad canolog a osodwyd yn ei le ym mis Mawrth o ddyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol sy'n symud yn gyflym yn parhau i fod yn barod ar gyfer 31 Hydref, gyda rhai mân addasiadau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y galw a'r adeg o'r flwyddyn. Mae Llywodraeth y DU yn nodi nad yw'r cyflenwad wrth gefn hwn yn cwmpasu'r holl linellau cynhyrchu, felly bydd yn ofynnol i gyflenwyr roi eu trefniadau paratoi eu hunain ar waith, gan ystyried y cydbwysedd rhwng casglu cyflenwad wrth gefn a dargyfeirio llwybrau cyflenwi er mwyn sicrhau'r cynllun wrth gefn mwyaf effeithiol a chadarn yng nghyd-destun yr amharu a ddisgwylir wrth y croesfannau byrraf.

Yn ogystal â'r ohebiaeth hon, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn cymryd y camau canlynol i sicrhau parhad yn y cyflenwad o feddyginiaethau a chyfarpar meddygol:

- Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cychwyn ar ymarfer caffael ar gyfer gwasanaethau cludo cyflym er mwyn rhoi mynediad at wasanaethau masnachol sy'n dosbarthu llwythi bach mewn 24 awr a phaledau dros ddau i bedwar diwrnod.
- Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu cychwyn ar waith caffael ar gyfer cludo nwyddau ar longau, lle byddai meddyginiaethau a chynnyrch meddygol yn cael blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod y cyflenwad o'r nwyddau hyn yn parhau i lifo'n ddirwystr.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi:

- dweud unwaith eto wrth gyflenwyr ei bod yn bwriadu defnyddio gweithdrefnau sefydledig i ymdrin ag unrhyw brinder meddyginiaeth ychwanegol
- tynnu sylw at ddeddfwriaeth ddiweddar a luniwyd i alluogi Gweinidogion i gyhoeddi protocolau prinder difrifol
- dweud unwaith eto na ddylai unigolion na darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gasglu cyflenwadau wrth gefn yn lleol
- egluro bod darpariaeth o hyd ar gyfer gofod ychwanegol mewn stordai, gan gynnwys storio cyffuriau mewn amgylchedd sefydlog, wedi'i oeri a'i reoli
- rhoi rhagor o eglurder am y gofynion rheoliadol gyda'r nod o sicrhau bod modd i gwmnïau barhau i werthu eu cynnyrch yn y DU
- cadarnhau, os byddwn yn ymadael heb gytundeb, y bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol unwaith eto yn gweithredu uned genedlaethol i edrych ar gyflenwadau ac ymateb i unrhyw beth sy'n amharu ar y cyflenwadau hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill er mwyn sicrhau bod y cyflenwadau o feddyginiaethau yn parhau. Bydd hyn yn cynnwys cydweithredu â threfniadau sydd newydd eu datblygu i reoli prinder mewn ffordd well, gan gynnwys gwaith perthnasol ar flaenoriaethu angenrheidiol. Rydym hefyd yn y broses o ddiweddarau ein deddfwriaeth er mwyn galluogi fferyllwyr i ddiwygio presgripsiynau o fewn cwmpas unrhyw brotocolau prinder difrifol os bydd angen eu rhoi ar waith yng Nghymru.

O ran dyfeisiau meddygol a defnyddiau traul clinigol, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, a fu'n arwain paratoadau yn gynharach eleni ac sy'n parhau i gynnal cyflenwadau ychwanegol yn y stordy a gafaelwyd yn ddiweddar yn neddwyrain Cymru. Mewn meysydd eraill, bydd sefyllfa gymharol debyg yn berthnasol -

trafodaethau agos gyda phartneriaid ar draws y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu.

Rydym yn disgwyl ailgychwyn Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru a'r ddesg gymorth iechyd, ac ailgychwyn yn llawn ein Grŵp Arweinyddiaeth Brexit a'i is-grwpiau. Bydd hyn yn digwydd fesul cam o fis Awst ymlaen, ac fe fydd rhagor o fanylion yn dilyn yn y man.

Fel y dywedais yn fy llythyr ar 15 Ebrill, rwy'n ddiolchgar iawn am eich ymdrechion yn gynharach eleni i sicrhau eich bod mor barod â phosib. Hoffwn ofyn i chi barhau i adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn sicrhau bod eich sefydliadau mor barod â phosib ar gyfer y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb ar 31 Hydref; gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i waith sy'n sicrhau bod gan ein gweithwyr o'r UE a'u teuluoedd fynediad at y cymorth a'r cyngor sydd ei angen arnynt.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i bethau ddatblygu dros y misoedd nesaf, ac fe fyddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnoch i barhau gyda'ch paratodau a'u cynnal ar y lefel briodol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'SD', written in a cursive style.

Simon Dean ar ran Dr Andrew Goodall CBE